

## Nodyn canllaw ar y Coronafeirws (COVID-19): Lleihau eich Llif Arian

Mae ein sector yn wynebu heriau mawr ac, i sicrhau ein bod yn aros yn gydnerth fel busnesau, mae angen i ni baratoi ar gyfer y cyfnod ariannol anodd sydd i ddod yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Ond sut gall busnesau cymdeithasol wneud hyn mewn gwirionedd, beth ddylen nhw ei ystyried a ble dylen nhw ddechrau?

Diben y nodyn briffio hwn yw eich cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol yn ymwneud â chyllid yn ystod y pandemig hwn. Byddwn yn diweddarau'r nodyn briffio hwn yn rheolaidd wrth i fwy o adnoddau a chyngor ddod ar gael.

Mae llawer o'r dolenni yn y ddogfen hon yn gysylltiedig â gwefannau allanol; rydym yn eu rhannu'n ddi-dwyll, ond nid oes gennym unrhyw reolaeth dros eu cynnwys na'u cywirdeb.

### 1. Dychwelyd i'ch Gwreiddiau:

I lawer o sefydliadau, mae dau ddull y mae angen iddynt eu hystyried; y cyntaf yw 'gaeafgysgu' a'r ail yw 'dychwelyd i'ch gwreiddiau'. Gaeafgysgu fydd yr opsiwn a ffeirir gan lawer o sefydliadau sy'n gweithredu yn y sectorau hamdden, lletygarwch a manwerthu, y bu'n rhaid iddynt gau eu drysau i'r cyhoedd.

I lawer, ni fydd unrhyw ffordd arall iddynt fasnachu neu gynnig eu gwasanaeth, felly bydd rhaid iddynt roi mwyafrif eu staff ar gyfnod seibiant a chynnal un neu ddau gyflogai allweddol a fydd yn gyfrifol am:


- Sicrhau bod yswiriant a thrwyddedau'n parhau
  - Sicrhau bod safleoedd yn ddiogel
  - Cynnal presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid
  - Rheoli cyllid, gan gynnwys y gyflogres
- Bydd rhaid i hyn barhau nes bod y cyfyngiadau'n cael eu llacio.

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi datblygu mwy o wybodaeth am roi staff ar gyfnod seibiant:

<https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/05/WCC-Coronavirus-Job-Retention-Scheme-cym-v2.pdf>

Er y byddant yn gaeafgysgu, bydd rhaid i sefydliadau ystyried lleihau eu llif arian ac amlygu pa gostau y gellir eu lleihau i'r eithaf i'w galluogi i fod mewn sefyllfa mor gryf â phosibl i ailddechrau ar ôl y cyfnod hwn.

'Dychwelyd i'ch gwreiddiau' yw pan fydd yr achosion Covid-19 yn effeithio ar ddulliau sefydliad o ddarparu gwasanaeth ond mae'n dal i allu masnachu, er hynny gan ddarparu gwasanaeth sylfaenol a mwy cyfyngedig nag y byddai'n ei



ddarparu fel arfer. Yn rhan o'r model 'dychwelyd i'ch gwreiddiau', bydd angen i'r sefydliad asesu pa wasanaethau y gall eu darparu'n ddiogel yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf a sut y gall leihau ei staff a'i gyllid i gyd-fynd â'r gwasanaeth sylfaenol hwnnw, oherwydd bydd effaith ar ei lefelau incwm er y bydd yn parhau i fasnachu.

## 2. Incwm:

Y cam cyntaf yw ystyried sut y bydd eich ffrydiau incwm yn lleihau. Gall rhagweld ariannol fod yn eithaf anodd mewn cyfnod mor ansicr, ond mae'n gam cyntaf hollbwysig i amlygu o ble mae eich incwm yn dod a beth fydd yr effaith debygol arno yn ystod y 3, 6, 9 a 12 mis nesaf. Ystyriwch sut rydych yn cynhyrchu eich incwm, pa Gytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) neu daliadau grant parhaus fydd yn dod i mewn? Gallai gweithredu gwasanaeth mwy sylfaenol effeithio ar eich incwm o CLGau, felly siaradwch â chontractwyr i gael gwybod sut bydd hyn yn effeithio ar eich incwm. A fyddwch yn gallu cynhyrchu unrhyw incwm masnachu? Byddwch yn realistig ac yn ddarbodus wrth grynhai eich incwm rhagamcanol.

**Chwistrelliad Ariannol:** – mae hyn yn fodd o gau'r bwlch. Mae llawer o opsiynau ar gael i sefydliadau, fel cyflwyno cronfeydd wrth gefn. Bydd llawer o sefydliadau wedi treulio blynyddoedd yn creu eu cronfeydd wrth gefn ar gyfer diwrnod glawog, ac mae'n ymddangos bod ein diwrnodau glawog i gyd wedi dod ar yr un pryd, felly, lle y bo'n bosibl, ystyriwch gyflwyno'r cronfeydd wrth gefn a phenderfynwch ar yr adeg fwyaf priodol i wneud hynny. Mae'n bwysig bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n gywir, felly ceisiwch gyngor proffesiynol, lle y bo'n bosibl.

Mae'r **Comisiwn Elusennau** wedi cyhoeddi arweiniad i elusennau, gan gynnwys ynglŷn â defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ac anghyfyngedig, yn ystod y pandemig hwn: <https://www.gov.uk/government/news/coronavirus-covid-19-guidance-for-the-charity-sector>

Mae siarad â banciau ynglŷn â chyflwyno neu ymestyn cyfleusterau gorddrafft yn opsiwn arall hefyd. Mae pob banc eisiau helpu yn ystod y cyfnod digynsail hwn ac mae rhai yn cynnig gorddrafftiau di-log.

Mae buddsoddwyr a benthycwyr cymdeithasol yn ystyried sut y gallan nhw helpu hefyd, trwy ddatblygu opsiynau newydd ar gyfer cyllid pontio mewn argyfwng a chynnig gwyliau ad-dalu cyfalaf ar fenthyciadau presennol.

Mae **Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru** wedi lansio benthyciadau pontio mewn argyfwng ar gyfer y sector:


<https://wcva.cymru/cy/benthyciadau-carlam-mewn-argyfwng/>

# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



**Mae Banc Datblygu Cymru** yn cynnig gwyliau ad-dalu i gwsmeriaid presennol ac yn cyflwyno'r gronfa fenthyciadau £100m ar ran Llywodraeth Cymru:

<https://developmentbank.wales/cy/coronafirws-cefnogaeth-ar-gyfer-busnesau-cymru>

Mae'r wefan Good Finance yn cynnwys rhestr hwylus a dolenni i fwy na 25 o fuddsoddwyr cymdeithasol:

<https://www.goodfinance.org.uk/latest/post/blog/social-investors-respond-covid-19>

Adolygwch unrhyw anfonebau sydd heb eu talu ac arian sy'n ddyledus i chi. Gallai cyhoeddi anfonebau a mynd ar ôl taliadau arwain at chwistrelliad arian.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff cyllido yn datblygu grantiau a phecynnau cymorth mewn ymateb i'r coronafeirws i helpu busnesau cymdeithasol i ymdopi ag effaith colli masnach a chostau staffio. Gall y rhain roi chwistrelliad arian y mae mawr angen amdano i'r busnes a dylid manteisio arnynt yn llawn, lle y bo'n bosibl. Rydym wedi datblygu map llwybr o gymorth:

[https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/04/CY5532-Road-Map-of-support\\_Cym-v2.pdf](https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/04/CY5532-Road-Map-of-support_Cym-v2.pdf)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau cyllid sydd ar gael yn:

**Busnes Cymdeithasol Cymru:** <https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/sites/>

<https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/05/Finance-factsheet-Welsh-v4.pdf>

**Llywodraeth Cymru:** [https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html?\\_ga=2.185166889.1481198259.1585557138-1260311384.1525014969](https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html?_ga=2.185166889.1481198259.1585557138-1260311384.1525014969)

**Llywodraeth y Deyrnas Unedig:** <https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19/covid-19-support-for-businesses>

**Cyllido Cymru:** <https://funding.cymru/pages/coronavirus-latest/>


Mae'n bwysig ystyried pryd rydych yn debygol o dderbyn unrhyw chwistrelliad arian i'r busnes, oherwydd bydd angen cyfrif am oedi i sicrhau nad ydych mewn sefyllfa llif arian negyddol, ac mae'n bosibl y bydd angen benthyciadau tymor byr i bontio unrhyw fylchau.

### 3. Treuliau:

Y cam nesaf yw ystyried eich treuliau i asesu ble y gallwch wneud toriadau ac arbedion dros dro i'ch helpu i oroesi'r cyfnod hwn. Bydd beth a faint y gallwch ei dorri yn dibynnu ar b'un a ydych yn bwriadu gaeafgysgu neu ddychwelyd i'ch gwreiddiau.

Deall ac amlygu beth yw costau sefydlog a chostau amrywiol fydd y cam cyntaf wrth asesu beth y gellir ei leihau a beth fydd yn aros yn gyson.





Mae gan **Fusnes Cymru** wybodaeth ddefnyddiol am ddeall eich costau:

<https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/cyllid/deall-costau#guides-tabs--1>

Pan fyddwch yn ceisio cyfyngu ac arbed costau, bydd angen i chi ystyried, fel sefydliad, sut gallwch wneud arbedion i'r canlynol:

- **Staffio:** dyma'r gost uchaf i sefydliadau, fel arfer, felly bydd angen i chi ystyried pa aelodau staff y mae arnoch eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau mwy cyfyngedig.

Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi datblygu arweiniad ar Adnoddau Dynol a rhoi staff ar gyfnod seibiant


<https://cymru.coop/wp-content/uploads/2020/05/WCC-Coronavirus-Job-Retention-Scheme-cym-v2.pdf>

- **Benthyciadau a morgeisi:** siaradwch â'ch banc ynglŷn â gohirio taliadau cyfalaf.
- **Cyflenwyr:** siaradwch â nhw ynglŷn â gohirio taliadau. Dylech gynnwys cyflenwyr nwy a thrydan. Mae'r rhan fwyaf yn ceisio bod yn gefnogol ac fe allai fod modd iddynt roi cynlluniau talu ar waith a fydd yn lleihau eich treuliau misol yn y tymor byr.
- **TAW a Threth:** Mae HMRC wedi datblygu'r cynllun Amser i Dalu ac wedi gohirio taliadau TAW er mwyn i fusnesau arbed arian yn y tymor byr. Rhif y llinell gymorth yw 0800 024 1222.
- <https://www.gov.uk/guidance/deferral-of-vat-payments-due-to-coronavirus-covid-19>
- <https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19/covid-19-support-for-businesses#support-for-businesses-paying-tax-time-to-pay-service>

Dylech bob amser ystyried effaith torri costau ar ddarparu gwasanaethau a rhwymedigaethau cyfreithiol. Ceisiwch gyngor proffesiynol os oes angen cymorth arnoch i amlygu beth i'w gwtogi.

#### 4. Monitro Llif Arian:

Bydd cyllidwyr a benthycwyr yn disgwyl tystiolaeth o sut mae'r pandemig Covid-19 yn effeithio ar eich busnes a'ch llif arian. Bydd angen i chi ddangos y gwahaniaeth rhwng llif arian arferol a'r cyllid wedi'i gyfyngu. Bydd cyfrifon hanesyddol a chyfrifon rheoli yn cael eu cymharu ag amcanestyniadau newydd sy'n dangos eich incwm disgwyledig yn ystod y 3, 6, 9 a 12 mis nesaf. Dylai'r amcanestyniadau llif arian ddangos yn glir sut rydych wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar gynlluniau cymorth y llywodraeth, a defnyddio cronfeydd wrth gefn (lle y bo'n bosibl) a



chwistrelliadau arian eraill i leihau'r effeithiau gymaint â phosibl, yn ogystal â sut rydych wedi torri eich costau yn unol â hynny. Dylech hefyd gynnwys amcangyfrifon darbodus a realistig o sut rydych yn disgwyl i'ch incwm masnachu ddychwelyd yn ystod y cyfnod. Bydd paratoi'r amcanestyniadau hyn yn caniatáu i gyllidwyr amlygu eich gwariant gweddilliol a'r ffigur diffyg y mae arnoch ei angen ar gyfer y 6 i 12 mis nesaf i barhau i fasnachu.

Mae gan Fusnes Cymru ganllaw gam wrth gam ar lunio rhagamcan llif arian:

<https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian>

Bydd llunio rhagamcanion a monitro llif arian yn rhan o unrhyw gais am gyllid/benthyciad. Ond hyd yn oed ar ôl gwneud hyn, bydd yn bwysig iawn cadw llygad ar lif arian gan ei bod yn hanfodol monitro a diweddarau rhagolygon a gwybodaeth reoli bob mis er mwyn i'ch busnes fod yn ystywyth ac addasu i newidiadau.

Bydd profi'r ffigurau dan straen yn eich galluogi i fesur sut y bydd newidiadau cadarnhaol neu negyddol yn effeithio ar eich llif arian ac yn caniatáu i chi roi cynlluniau wrth gefn ar waith.

### 5. Gweithredu Strategaeth Amgen:

Pan fyddwch wedi amlygu beth yw'ch darpariaeth fwy cyfyngedig ac wedi rhoi'r camau angenrheidiol ar waith i dalu'r costau, bydd angen i chi feddwl am eich strategaeth amgen. Ystyriwch sut rydych yn mynd i ddeffro'n raddol o'ch gaeafgws neu dyfu o'ch gwreiddiau pan fydd y cyfyngiadau'n dechrau cael eu codi. A oes unrhyw gamau bach y gallwch eu cymryd yn ystod y 3-6 mis nesaf i ddechrau creu masnach ac incwm? Ystyriwch bethau fel y canlynol:

- Cynlluniau caredigrwydd (pay forward).
- Darpariaeth amgen.
- Talebau rhodd.
- Cadw mewn cysylltiad â'ch sylfaen gleientiaid trwy gyfathrebiadau a diweddariadau.


Mae'r sefyllfa'n newid yn gyflym ac rydym yn gweithio fel tîm i ddatblygu offer, cyngor ac adnoddau penodol a fydd ar gael yn ystod y diwrnodau a'r wythnosau i ddod, felly cadwch lygad am ein diweddariadau e-bost ac [ymwelwch â'n gwefan](#) yn rheolaidd hefyd.

# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



Os hoffech siarad ag un o'n Cynghorwyr Busnes, ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu anfonwch neges e-bost at [sbwenquiries@wales.coop](mailto:sbwenquiries@wales.coop) a **gallwn drefnu eich ffonio'n ôl.**

### **Dolenni Allweddol:**

- [Datganiad Iechyd Cyhoeddus Cymru \(caiff ei ddiweddarau bob dydd\)](#)
- [Gwybodaeth ddiweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru am COVID-19](#)
- [Gwybodaeth Llywodraeth Cymru i unigolion a busnesau](#)
- [Cyngor Busnes Cymru ar covid-19 i fusnesau](#)
- [Cyngor cyffredinol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y coronafeirws](#)
- [Cyngor Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y coronafeirws \(ar gyfer cyflogwyr, cyflogeion a busnesau\)](#)
- [Gwiriwr symptomau COVID-19 Galw Iechyd Cymru](#)